WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen iddo ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Huw Lloyd Jones a John Roberts, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Bwrdeistref Sirol Conwy? 04

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 07

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwasanaethu pobl yn dda? 11

- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu pobl mewn angen? 13
- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu pobl i ddatblygu? 18
- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 23

Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei wneud? 26


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 27

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 29

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 30

Atodiad 4 - Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 31

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 34

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 35

# Pa fath o ardal yw Bwrdeistref Sirol Conwy?

1 Mae Bwrdeistref Sirol Conwy (y Sir) yn ymestyn i'r de tua 35 cilometer o'r trefi glan môr Conwy, Llandudno a Bae Colwyn i bentrefi anghysbell megis Penmachno. Mae'r Sir yn ymestyn dros 1,100 cilometr sgwâr, sef y chweched fwyaf ymhlith 22 awdurdod lleol Cymru. Mae afon Conwy yn llifo i'r gogledd drwy'r Sir; mae'r rhan fwyaf o'r tir o bobtu dyffryn hardd Dyffryn Conwy yn wledig, ond mae llawer o'r ardal i'r gorllewin o Ddyffryn Conwy yn arw ac yn fynyddig ac mae'n gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae ffordd gyflym yr A55 yn cysylltu gogledd y Sir ag ardal gyfagos Gwynedd i'r gorllewin ac â sir Ddinbych i'r dwyrain.

2 Ar sail yr amcangyfrif diweddaraf (2009), mae gan y Sir boblogaeth o tua 111,000. Mae poblogaeth Conwy yn llai dwys na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru ar y cyfan ond mae ei dosbarthiad yn anghyfartal iawn. Mae tua 80 y cant o'r bobl yn byw ar lain gul o arfordir rhwng Llanfairfechan yn y gorllewin ac Abergele yn y dwyrain. Mae ymwelwyr yn cynyddu'r boblogaeth, yn enwedig yn ystod yr haf, ar yr arfordir ac yn yr ardaloedd gwledig.

3 Dengys proffil oedran poblogaeth y Sir fod 17.2 y cant o'r boblogaeth yn blant (0 i 16 oed) a bod 24.1 y cant yn 65 oed neu drosodd. Golyga hyn fod gan Gonwy y gyfran isaf ond un o blant o blith holl awdurdodau lleol Cymru, a'r gyfran uchaf o gryn dipyn o bobl hŷn. Mae'r proffil oedran wn yn adlewyrchu poblogrwydd yr ardal arfordirol o hyd fel lle i ymddeol.

ardal ddaearyddol
1,100 km$^2$
/////////////

poblogaeth
tua 111,000
/////////////

17.2% yn 0-16 oed
24.1% yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael ei reoli'n dda?

4 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth iawn. Ym mis Awst 2010, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad, sef yr Asesiad Corfforaethol, sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion am drefniadaeth y Cyngor a sut y caiff ei reoli. Rydym wedi nodi ein prif gasgliadau yn Atodiad 3. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan y Cyngor (www.conwy.gov.uk/accountability) neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

5 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod llawer agwedd ar y trefniadau corfforaethol bellach yn cefnogi gwelliant. Fodd bynnag, canfuwyd bod ansicrwydd ar lefel yr uwch reolwyr yn risg bosibl i allu'r Cyngor i ateb heriau'r dyfodol.

6 Mewn geiriau eraill, canfuwyd bod y cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi parhau er gwaethaf yr anawsterau a wynebwyd ganddo am fod ei Brif Weithredwr yn absennol o'r gwaith. Yr her ar gyfer y dyfodol yw parhau i ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau cadarn ynghylch beth mae am ei wneud a beth mae'n gallu fforddio ei wneud, ar ei ben ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill.

7 Y prif negeseuon o'n hadroddiad oedd bod y Cyngor, ers 2005, wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y ffordd y mae'n rheoli ei fusnes. Mae wedi datblygu systemau effeithiol i fonitro perfformiad ei wasanaethau. Mae cynghorwyr a swyddogion yn cydweithio'n dda i nodi problemau posibl yn y dyfodol ac yna gynllunio i ymdrin â hwy. Mae'r camau cyflym a gymerwyd i benodi tîm rheoli dros dro wedi golygu nad yw absenoldeb y Prif Weithredwr wedi amharu ar fomentwm busnes y Cyngor.

8 Nodwyd hefyd gennym fod y Cyngor wedi mynd ati i egluro ei flaenoriaethau mewn ffordd a ddylai ei helpu i werthuso effaith ei waith yn fwy effeithiol. Mae'r Cyngor wedi dechrau ar y dasg bwysig o gysoni ei gyllid ac adnoddau eraill yn agosach â'r blaenoriaethau hyn yn yr hinsawdd ariannol gynyddol heriol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n dda gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddarparu ystod o'i wasanaethau ac roedd wrthi'n ystyried rhinweddau gweithio mewn partneriaeth ymhellach.

9 Ers i ni gyhoeddi ein Hasesiad Corfforaethol, mae arweinwyr y Cyngor wedi parhau i reoli'r risgiau posibl a nodwyd yn ein hadroddiad yn dda. Mae gwaith arloesol wedi'i wneud mewn rhai meysydd. Er enghraifft, mae grwpiau o gynghorwyr a staff wedi ystyried sut y gallai'r Cyngor wella ym mhob un o'r chwe maes allweddol ac wedi gwneud argymhellion defnyddiol sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd pellach yn y modd y mae'n defnyddio meddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon ac mae'n gwneud defnydd gwell o ddata am ei berfformiad.

10 Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio'n dda gyda'i bartneriaid ac wedi cytuno ar Ddatganiad ar Gydweithredu sy'n nodi rhai egwyddorion i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar gydweithio. Penderfynodd y Cyngor beidio â bwrw ymlaen gyda chynnig i rannu swydd pennaeth gwasanaeth allweddol â chyngor cyfagos. Ar ôl ystyriaeth lawn, penderfynodd y Cyngor fod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn drech na'r manteision posibl.

11 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol, mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiad o tua £2.5 miliwn (1.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real[1] o tua £5.3 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos mwy o leihad mewn termau real yn arian refeniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

12 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor gan Lywodraeth y Cynulliad ar ffurf grant cyfalaf cyffredinol a benthyciadau â chymorth leihau'n sylweddol. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm y math hwn o arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

13 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ffynonellau cyfalaf eraill drwy grantiau penodol gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd. Er gwaethaf y lleihad yn y grant cyfalaf cyffredinol a benthyciadau â chymorth, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn fwy nag ydyw ar gyfer 2010-11. Ymhlith y prif brosiectau mae datblygu Parc Eirias a'r Glannau ym Mae Colwyn, a gwaith adnewyddu sylweddol ar unig ysgol arbennig y Cyngor.

14 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei waith cynllunio ariannol ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol. Mae'r Cyngor bellach yn amcangyfrif y bydd angen iddo ddod o hyd i arbedion refeniw o £15.7 miliwn dros y tair blynedd yn dechrau yn 2011-12, sydd dros £6 miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae gwaith manwl gan swyddogion a chynghorwyr, wedi'i ategu'n dda gan wasanaethau unigol, wedi nodi arbedion gwerth £11.8 miliwn hyd yma. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arbedion o £5.65 miliwn yng nghyllideb 2011-12, sy'n cyfateb i tua thri y cant o gyllideb 2010-11.

15 Mae'r arbedion a nodwyd hyd yma yn gyfuniad doeth o foderneiddio gwasanaethau, mesurau effeithlonrwydd a ffyrdd o greu incwm cynyddol yn sgîl y lefel is o Grant Cynnal Refeniw nag a geid yn y gorffennol. Fodd bynnag, cafodd y Cyngor tua £33 miliwn mewn grantiau penodol yn 2010-11 hefyd ac mae'n rhagweld y bydd gostyngiad yn y ffynhonnell hon o incwm yn y dyfodol hefyd. Felly erys rhagor i'w wneud i ddod o hyd i'r arbedion angenrheidiol ac mae'r Cyngor wedi gofyn i benaethiaid gwasanaeth adeiladu ar eu gwaith cynharach drwy ystyried cylch arall o arbedion.

16 Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau bod datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2009-10 yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ei lythyr archwilio blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd a wneir o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4[2].

1 Mae termau real yn golygu y caiff effaith chwyddiant ei ystyried. Mae llawer o ffyrdd y gellir mesur chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau'r sector cyhoeddus o gyfres GDP y Trysorlys.

2 Ceir rhagor o wybodaeth am hawl pobl mewn perthynas â chyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

17 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella ei wasanaethau. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei Amcanion Gwella. Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar 10 amcan, a nodwyd gennym isod:

- Byddwn yn hyrwyddo yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel y bydd ein plant yn ymfalchïo yn eu treftadaeth - eu Cymreictod - ac yn fodlon rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal.
- Byddwn yn darparu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y Sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn is-ranbarthol, i ddatblygu ardaloedd busnes allweddol sy'n ategu ein cymdogion, gan sicrhau economi leol amrywiol gytbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal.
- Os ydych yn hyn, byddwn yn eich helpu i barhau'n annibynnol a chadw eich lle yn eich cymuned.
- Byddwn yn sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau a'r dechrau gorau'n gymdeithasol i'w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn ogystal â'r rhai sy'n ymuno â'r System Cyfiawnder Ieuenctid, a'r rhai sy'n ei gadael, i'w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella'u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a'u bod yn gwella'u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.
- Byddwn yn trafod y tebygolrwydd o lifogydd ac erydiad yr arfordir a goblygiadau hynny, gyda'n cymunedau.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o'n technoleg i ddiweddaru'r ffordd rydym yn gweithio a lleihau'n defnydd o bapur.
- Byddwn yn arwain y ffordd mewn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

18 Mae'r Amcanion Gwella hyn yn is-set o flaenoriaethau presennol y Cyngor, fel y'u nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2008 i 2012. Mae'r Cyngor yn adolygu'r cynllun hwn bob blwyddyn ac, yn 2010, mae wedi cynnwys y gofyniad newydd i bennu Amcanion Gwella fel rhan o'i adolygiad. Mae hon yn ffordd briodol o weithredu, gan alluogi'r Cyngor i ystyried y ddeddfwriaeth newydd o fewn ei gylch cynllunio presennol. Mae'r Cyngor wedi egluro bod pob un o'r amcanion yn y Cynllun Corfforaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth iddo ond mai'r Amcanion Gwella fydd ei flaenoriaethau allweddol pe bai angen ystyriaeth bellach yng nghyd-destun llai o gyllideb.

19 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill. Cymeradwywyd yr Amcanion Gwella gan Gabinet y Cyngor ar 11 Mai 2010 ac roeddent ar gael ar ei wefan yn ddiweddarach yn ystod y mis hwnnw. Fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Gorffennaf 2010. Felly roedd amserlen y Cyngor ar gyfer cyhoeddi ei Amcanion Gwella yn 2010 wedi bodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

20 Mae gwefan y Cyngor ond yn cynnig un ffordd i ddinasyddion a rhanddeiliaid gael gwybod am yr Amcanion Gwella. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod yr Amcanion Gwella yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol a ddosbarthwyd yn eang pan gafodd ei lunio gyntaf, a'i fod wedi'i gynllunio mewn ffordd a oedd wedi'i hanelu at ddinasyddion yn bennaf. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cyngor, yn y dyfodol, ystyried ffyrdd o ailennyn diddordeb y cyhoedd yn ei Amcanion Gwella blynyddol drwy ddefnyddio cyfryngau megis ei Fwletin neu bapur newydd lleol yn ogystal â'i wefan.

21 Edrychwyd hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Roeddem yn cydnabod yn ein hadroddiad ar Asesu Corfforaethol bod blaenoriaethau'r Cyngor yn gyson yn gyffredinol â'r rhai yn y Strategaeth Gymunedol. Mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid yn dda wrth bennu ei flaenoriaethau. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cynnwys digwyddiadau 'Cwrdd â'r Cyngor' a deialog cymunedol ar brosiectau penodol megis moderneiddio ysgolion cynradd, tai gofal ychwanegol ac ailgylchu gwastraff. Mae'r Cyngor wedi cymryd y cam pragmatig o beidio ag ymgynghori â rhanddeiliaid ar ei Amcanion Gwella'n benodol, gan eu bod yn rhan o is-set o'r blaenoriaethau a oedd eisoes ar waith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ganddo eisoes ac mae wedi gweithio gydag aelodau a staff i bennu ei Amcanion Gwella.

22 Er mwyn sicrhau bod i gynlluniau gwella'r Cyngor ffocws digonol, archwiliwyd a yw'r Cyngor yn gwybod yn glir sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella yn y modd y mae'n bwriadu ei wneud. Fel y'u cyhoeddwyd, mae gan yr Amcanion Gwella rai diffygion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau drwy amlinellu'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud ac yna nodi mewn ffordd gyffredinol yn unig sut y bydd y gymuned leol a dinasyddion yn elwa o ganlyniad i hynny. Nid yw'r Cyngor wedi diffinio yn y ddogfen sut y bydd yn penderfynu i ba raddau y mae wedi llwyddo i gyflawni ei Amcanion Gwella.

23 Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o ddangosyddion a mesurau y mae'n eu defnyddio, ochr yn ochr â chrynodeb disgrifiadol o'r cynnydd a wneir, er mwyn asesu ei berfformiad yn erbyn yr holl amcanion yn y Cynllun Corfforaethol, sy'n cynnwys yr Amcanion Gwella. Fel mater o arfer mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau bob blwyddyn ar ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion a'r mesurau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol. Fodd bynnag, mae'r mesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio yn tueddu i adlewyrchu'r rhan gyntaf o'i Amcanion Gwella – yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud – ac nid ydynt yn canolbwyntio cymaint ar y buddiannau i ddinasyddion.

24 Dengys Arddangosyn 1 isod enghraifft o'r mesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i asesu ei berfformiad yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2009-10. Mae'r mesurau a ddewiswyd yn rhoi amcan o faint y mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, wedi'i wneud. Ond nid ydynt yn asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r amcan o 'economi leol amrywiol gytbwys' ai peidio na'r graddau y mae wedi 'cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal', yn ôl y bwriad.

**Arddangosyn 1**

**Amcan Gwella**

Gweithio gyda phartneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn is-ranbarthol, i ddatblygu ardaloedd busnes allweddol sy'n ategu ein cymdogion, gan sicrhau economi leol amrywiol gydbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal.

**Mesurau**

- nifer y busnesau a gefnogir gan y Cyngor neu Lywodraeth y Cynulliad a'r math o fusnesau;
- nifer y swyddi a grëwyd gan fusnesau a gefnogir gan y Cyngor neu Lywodraeth y Cynulliad a'r math o swyddi;
- nifer y swydd a grëwyd drwy arian cydgyfeirio;
- nifer y busnesau a gefnogir yn ariannol drwy arian cydgyfeirio;
- busnesau a gefnogwyd cyn dechrau;
- nifer y grantiau a roddwyd i fusnesau newydd.

25 Gwnaethom hefyd asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio gwelliannau a darparu adnoddau ar eu cyfer. Fel yr esboniwyd uchod, daw Amcanion Gwella'r Cyngor o'i Gynllun Corfforaethol pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2012. Yn sail i'r Cynllun Corfforaethol mae'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol, sy'n nodi'n fanylach y camau gweithredu a ddylai arwain at gyflawni ei Amcanion Gwella. Mae'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol yn gyswllt pwysig rhwng yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a'r gweithgareddau y mae gwasanaethau unigol yn ymgymryd â hwy er mwyn ei gyflawni.

26 Mae'r gostyngiad yn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor ond wedi cael ychydig o effaith ar ei flaenoriaethau hyd yma. Ni fu fawr ddim newid yn y pethau y mae'r Cyngor wedi dweud y byddai'n eu gwneud pan gyhoeddodd ei Gynllun Corfforaethol yn gyntaf yn 2008. Mae'r cysondeb hwn o ran hynny yn adlewyrchu, yn rhannol, y ffaith nad yw'r Cyngor wedi bod yn benodol o ran diffinio ei amcanion, fel y gall barhau i anelu atynt gyda llai o gyllideb. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi datblygu systemau cadarn i sicrhau ei fod yn ystyried ei holl benderfyniadau ariannol o ran eu heffaith ar ei flaenoriaethau. Mae hefyd wedi cytuno ar 'ddatganiad o gydweithredu' sy'n rhoi sail dda ar gyfer ystyried cynigion yn y dyfodol i gydweithio ag eraill er mwyn gallu darparu gwasanaethau'n fwy cost-effeithiol.

27 Yn sgil y ffaith y bydd llai o adnoddau cyfalaf cyffredinol ar gael, mae'r Cyngor wedi gwneud y penderfyniad doeth i ddod o hyd i ateb tymor canolig i'w broblemau o ran swyddfeydd, a gohirio cynigion cynharach a fyddai wedi gofyn am wariant sylweddol ar adeiladau newydd.

28 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Mae Archwilwyr Penodedig y Cyngor wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor, yn 2009-10, wedi cynnal lefel dda o gywirdeb o ran llunio ei Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol[3].

29 Wrth fonitro ei berfformiad a chyflwyno adroddiadau arno mewn perthynas â'i Amcanion Gwella a blaenoriaethau eraill, mae'r Cyngor wedi dewis 'basged' o ddangosyddion sy'n cynnwys rhai o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol, dangosyddion perfformiad anstatudol a gesglir yn genedlaethol yn ogystal â dangosyddion lleol. Mae hefyd yn aelod o amrywiol glybiau meincnodi, ac mae'n defnyddio peth o'r data a gaiff o ganlyniad i hynny i fonitro agweddau ar ei berfformiad. Gyda'i gilydd mae'r data hwn yn cynnig cyfres benodol a chyson o fesurau y gellir monitro cynnydd yn ei herbyn. Lle y bo modd, mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau ar ddata cymharol yn gynyddol, sy'n helpu cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill â diddordeb i bwyso a mesur pa mor dda yw perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cymharu ei berfformiad ar y rhan fwyaf o ddangosyddion yn erbyn targedau a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn, gan roi cyd-destun pellach ar gyfer asesu ei gynnydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol yn unig.

30 Er bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ei berfformiad yn briodol, gall y Cyngor wneud gwelliannau o ran y math o wybodaeth y mae'n ei chasglu ac yn ei defnyddio i asesu ei gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella. Yn benodol, nid yw'r set o ddata y mae'r Cyngor yn ei mesur ac yn cyflwyno adroddiadau arni, bob amser, yn adlewyrchiad digonol o'r canlyniadau y mae'n ceisio eu sicrhau. Nodwyd yn ein Hasesiad Corfforaethol y dylai'r Cyngor 'ddatblygu'r defnydd a wneir o ganlyniadau a mesurau ansoddol a meintiol cysylltiedig wrth ddiffinio amcanion a blaenoriaethau' fel maes i'w wella.

31 Bu cynnydd sylweddol yn hyn o beth yn ystod y misoedd diwethaf. Yn benodol, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Gytundebau Canlyniadau newydd. Mae'r Cytundebau Canlyniadau drafft yn ymwneud â'r un blaenoriaethau ag Amcanion Gwella'r Cyngor. Mae'r drafftiau hyn yn canolbwyntio'n fwy penodol nag o'r blaen ar yr hyn sydd angen ei wella ac ystod llawer ehangach o dystiolaeth y gellir beirniadu perfformiad y Cyngor yn ei herbyn. Mae arwyddion addawol, felly, bod y Cyngor eisoes yn mynd i'r afael â'r diffygion a nodir gennym uchod.

3 Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn rhan o fframwaith mesur perfformiad y cytunwyd arno'n genedlaethol a mesurau perfformiad penodol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith yn cynnig cymysgedd o fesurau strategol a gweithredol ar draws nifer o feysydd gwasanaeth/polisi awdurdodau lleol Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar eu perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol bob blwyddyn.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwasanaethu pobl yn dda?

32 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a'u cynnydd yn erbyn rhai o'i Amcanion Gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yn y Sir sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir gan gynghorau ar gyfer dinasyddion. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

33 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych yn fanylach ar ba mor dda mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yn hyn mewn perthynas ag un o'i amcanion ar gyfer y tair agwedd hyn. Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol. Byddwn yn edrych yn fanylach ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor wedi eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

34 Yr amcanion rydym wedi dewis eu harchwilio'n fwyaf manwl eleni yw:

- Os ydych yn hyn, byddwn yn eich helpu i barhau'n annibynnol a chadw eich lle yn eich cymuned.
- Byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella'u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a'u bod yn gwella'u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.
- Byddwn yn darparu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y Sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith mewn ffordd gydgysylltiedig.

35 Hefyd, rydym wedi ystyried safbwyntiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gynnydd y Cyngor o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae'r adroddiad hwn yn caniatáu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

36 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol ymdrechion y Cyngor i brif ffrydio'r Gymraeg yn ei waith cynllunio corfforaethol a'i agenda ar gyfer gofal cwsmeriaid. Mae'r Cyngor yn comisiynu gwaith monitro annibynnol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ac yn cynnwys argymhellion dilynol yn ei gynlluniau gwella. Cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod gwefan y Cyngor, ei ddogfennaeth etholiadol a'i hysbysebion statudol a hysbysebion recriwtio yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor gofnod cyfredol o sgiliau ieithyddol ei staff. Bu hefyd yn aflwyddiannus yn ystod 2009-10 yn ei ymdrechion i

benodi siaradwyr Cymraeg i 70 y cant o'r 47 o swyddi lle dynodwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol'. Gallai'r problemau hyn roi mwy o bwysau ar adran gyfieithu'r Cyngor a golygu bod y Cyngor mewn perygl o fethu â chynnig gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n bodloni gofynion statudol ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun.

37 Er bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y Sir wedi gostwng ers 2001, roedd ychydig dros 34 y cant o boblogaeth y Sir yn gallu siarad Cymraeg yn 2009 o gymharu ag ychydig o dan 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Un o amcanion gwella'r Cyngor yw: 'hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel bod ein plant yn ymfalchïo yn eu treftadaeth – eu Cymreictod – ac yn fodlon rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal'.

38 Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dilyn rhaglenni astudio Cymraeg Iaith Gyntaf ac yn defnyddio'r iaith fel cyfrwng i ddysgu pynciau eraill. Golyga hyn fod mwy o ddisgyblion na chynt yn gadael ysgolion cynradd gyda lefel dda o ddwyieithrwydd, ac mae mwy o ddisgyblion hefyd yn dewis parhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog pan fyddant yn dechrau mewn ysgolion uwchradd.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu pobl mewn angen?

39 Mae cynghorau yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed. Maent yn darparu gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed, cymorth ymarferol i alluogi pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol a llety i'r rhai sy'n ddigartref. Cynghorau hefyd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ac maent yn ceisio helpu pobl i ddod yn berchenogion tai drwy sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy.

40 Llwyddodd y Cyngor i atal 77 y cant o deuluoedd a allai fod wedi mynd yn ddigartref rhag bod yn ddigartref yn 2009-10. Mae hyn yn berfformiad gwell na'r flwyddyn flaenorol ac mae'n well na'r cyfartaledd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae teuluoedd digartref sydd â phlant yn treulio, ar gyfartaledd, lawer mwy o amser mewn llety gwely a brecwast nag sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o awdurdodau. Gwellodd perfformiad y Cyngor ychydig yn 2009-10 o ran hynny, ond mae'n un o'r gwaethaf o hyd o ran perfformiad cynghorau yng Nghymru.

41 Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad ar ddigartrefedd ym mis Ebrill 2010. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen i dimau Strategaeth Tai a digartrefedd y Cyngor gydweithio'n well i ddatblygu strategaeth effeithiol i ymdrin â digartrefedd ac i gael y gorau o'u perthynas â Cartrefi Conwy[4] a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill.

42 Nododd astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod pryderon ledled Gogledd Cymru mewn ymateb i anghenion tai oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Canfuwyd bod rhai cynghorau, gan gynnwys Conwy, yn gweithredu polisïau gwahardd a allai arwain at sefyllfa lle na allai pobl sy'n agored i niwed ac sydd â phroblemau iechyd meddwl gael llety. Canfu'r adroddiad bod angen i sefydliadau, yn enwedig sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gydweithio'n well i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau.

43 Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau newydd a newidiadau i geisiadau blaenorol am y Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor yn 2009-10. Fodd bynnag, mae'r amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i brosesu'r rhain wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn. Er iddo ragori o bell ffordd ar y targed a bennwyd, cymerodd dros 11 diwrnod i brosesu pob cais newydd neu newid o gymharu â chyfartaledd o 10.1 diwrnod i Gymru gyfan.

44 Gallai newidiadau i'r system Budd-dal Tai a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU gynyddu nifer y bobl sy'n mynd yn ddigartref. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y risg hon ac mae'n cymryd camau i geisio lleihau ei effaith.

45 Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymryd 349 diwrnod ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn 2009-10. Roedd Cyngor Conwy ymhlith y cynghorau gorau yng Nghymru o ran hynny, gan gymryd 237 diwrnod. Mae'r ffigur hwn yn welliant sylweddol ers y flwyddyn cynt, pan gymerodd y Cyngor 390 diwrnod i ddarparu'r grant. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi targedu camau gweithredu i ddarparu grantiau yn ei Gytundeb Gwella â Llywodraeth y Cynulliad[5] Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau ar gyfer faint o amser a gymerir i ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gwaith addasu cost isel. Dangosodd arolygon y Cyngor fod 84 y cant o gleientiaid, o'r rhai a ymatebodd, yn fodlon ar ei

4 Trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai i Cartrefi Conwy ar 1 Hydref 2008. Ar ôl ei throsglwyddo, roedd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth digartrefedd ond trosglwyddwyd y rhan fwyaf o ddyletswyddau tai gweithredol i Cartrefi Conwy.

5 Nod Cytundebau Gwella oedd cadw ffocws ar wella gwasanaethau llywodraeth leol, gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth y Cynulliad fel prif sbardun i wneud gwelliannau.

broses ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Roedd y cyfarpar yn ddefnyddiol ym marn 92 y cant; a theimlai 91 y cant fod y cyfarpar wedi eu helpu i barhau i fod yn annibynnol.

46 Pennodd y Cyngor darged uchelgeisiol ar gyfer 2009-10 y dylai hanner yr unedau tai a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fod yn fforddiadwy. Er iddo fethu â chyrraedd y targed hwn (dim ond 29 y cant o'r unedau tai oedd yn fforddiadwy), perfformiodd y Cyngor yn dda o gymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau.

47 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

48 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

49 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a'r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

50 Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol iawn gyda phartneriaid ym maes gwasanaethau oedolion i ddarparu gwasanaethau sy'n helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ar amser. Er enghraifft, caiff rhagor o bobl help i adael yr ysbyty'n gynt drwy welliannau fel cynlluniau tai gofal ychwanegol newydd i bobl hŷn ac mae'r Cyngor yn meithrin cydberthynas waith agos gyda darparwyr cymorth mewn ysbytai, megis y cymorth arbenigol i bobl â nam ar eu golwg.

51 Mae prosesau cynllunio gwasanaethau i oedolion yn effeithiol yn gyffredinol. Mae tystiolaeth gynyddol i ddangos bod y Cyngor yn parhau i newid o fodel gwasanaethau traddodiadol i bobl hŷn sy'n seiliedig ar adeilad i wasanaethau cymunedol sy'n galluogi pobl i aros yn eu cymuned ddewisol. Mae oedi sylweddol ym maes gwasanaethau i oedolion o ran cwblhau cynlluniau gofal (ac eithrio asesiadau arbenigol); ar gyfartaledd, cymerir 29 diwrnod gwaith i gwblhau cynllun gofal o gymharu â chyfartaledd o 17 diwrnod gwaith yng Nghymru. Mae angen gwella'r lefelau perfformiad hyn er mwyn sicrhau bod pobl leol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ffordd effeithiol ac amserol. Gall y Cyngor hefyd wneud mwy i ddarparu technoleg gynorthwyol i bobl. Mae hwn yn faes pwysig i'w wella yng Nghonwy sydd â'r gyfran uchaf o bobl hŷn ymhlith poblogaeth gyffredinol Cymru.

52 Canfu arolygiad Amddiffyn Oedolion AGGCC ym mis Rhagfyr 2009 fod gan y Cyngor raglen archwilio fewnol yn benodol ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y rhaglen hon wedi helpu i nodi arfer da ynghyd â'r meysydd hynny y mae angen rhoi sylw iddynt. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn gwella cysondeb o ran arfer yn y maes pwysig hwn o'i waith.

53 Ym maes gwasanaethau plant, nododd y Cyngor fod newidiadau i'w brosesau cofnodi yn ystod 2009-10 wedi arwain at ddirywiad ymddangosiadol mewn rhai meysydd perfformiad. Er enghraifft, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran yr achosion lle gwnaed penderfyniad am atgyfeirio plentyn o fewn un diwrnod gwaith, o 98 y cant yn 2008-09 i 59 y cant yn 2009-10 a dim ond 40 y cant o asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn yr amserlen saith diwrnod gwaith. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi dirywiad ymddangosiadol yn ei berfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Yn 2008-09, dechreuodd 91 y cant o blant a oedd yn derbyn gofal eu lleoliad cyntaf gyda chynllun gofal ond, yn 2009-10, roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 79 y cant. Mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun sefydlogrwydd yn ystod eu hail adolygiad wedi gostwng bob blwyddyn o 92 y cant yn 2006-07 i 66 y cant yn 2009-10. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i system gofnodi er mwyn ymchwilio i'w brosesau a chymryd camau priodol i sicrhau y cedwir cofnodion cywir.

54 Canfu Arolygiad Mabwysiadu AGGCC yn 2010 bod arferion gwaith cymdeithasol yn effeithiol iawn, gyda rhai enghreifftiau o arfer da iawn. Fodd bynnag, amlygodd yr arolygiad o wasanaethau maethu bryderon am y broses gofnodi bresennol mewn perthynas â ffeiliau pobl ifanc a gofalwyr maeth. Efallai bod y broblem wedi codi am nad yw proses gofnodi gyfrifiadurol newydd wedi'i chymhwyso'n gyson. Mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad o ran pennu gweithiwr cymdeithasol i bob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a chynhaliwyd bron pob adolygiad amddiffyn plant o fewn yr amserlenni gofynnol. Er hynny, ym mis Hydref 2009, nododd Adolygiad AGGCC o Drefniadau Diogelu Plant yr angen i gyflwyno system sicrhau ansawdd er mwyn codi safonau ym mhob rhan o'r broses asesu, rheoli gofal a gwneud penderfyniadau. Dylai'r Cyngor hefyd wella amseroldeb o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chyfarfodydd grŵp craidd.

55 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai megis dechrau y mae'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac nad yw'n cefnogi ei flaenoriaethau'n glir. Mae'n anodd recriwtio unigolion i swyddi rheolwyr ym maes gwasanaethau oedolion. Mae lefelau salwch yn y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn uchel er ymdrechion sylweddol y Cyngor i leihau lefelau absenoldeb.

## A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwella ei gymorth i bobl hŷn i'w helpu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau?

56 O dan y pennawd 'cefnogi pobl mewn angen', rydym wedi canolbwyntio ar Amcan Gwella'r Cyngor i helpu pobl hŷn fod yn annibynnol gennym. Gyda'r Sir yn cynnwys y ganran uchaf o drigolion 65 oed neu drosodd yng Nghymru, mae'r amcan hwn yn berthnasol iawn i anghenion y gymuned. Mae hefyd yn amlwg yn mynd i'r afael â sawl un o'r meini prawf ar gyfer Amcanion Gwella y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u nodi yn ei chanllawiau. Mae'r Cyngor wedi dweud:

- ‘Os ydych yn hyn, byddwn yn eich helpu i barhau'n annibynnol a chadw eich lle yn eich cymuned.’

57 Mae gan y Cyngor nifer o fentrau ar waith, y mae sawl un ohonynt yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid, ac sydd â'r nod o helpu pobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- agor dau gynllun tai gofal ychwanegol[6], ynghyd â chynlluniau eraill sydd yn yr arfaeth;
- ymestyn Taliadau Uniongyrchol presennol Gwasanaethau Cymdeithasol[7] i fwy o ddefnyddwyr gwasanaethau;
- cytuno â'r GIG i ariannu dwy fflat seibiant Gofal Iechyd Parhaus;
- prynu cerbyd newydd i ddarparu Gwasanaeth Llyfrgell i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ; ac
- ystyried y posibilrwydd o ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at ddarpariaeth Teleofal[8].

58 Mae'r mentrau hyn yn gyson â nod y Cyngor i ailstrwythuro'r ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn gyda'r bwriad o'u helpu i barhau i fod yn annibynnol, gan sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Mae nifer o gartrefi gofal y Cyngor wedi cau wrth i'r cynlluniau tai gofal ychwanegol gael eu cwblhau.

59 Mae'r Cyngor wedi nodi pedwar mesur y mae'n eu defnyddio i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad yn erbyn yr Amcan Gwella hwn. Fe'u hamlinellir yn Arddangosyn 2, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor, ynghyd â'r data perthnasol o 2008-09 a 2009-10.

60 Mae Mesurau 2 a 3 yn Arddangosyn 2 yn ddangosyddion defnyddiol, ac mae'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau am fudd-daliadau yn faes lle mae angen i'r Cyngor wella. Fodd bynnag, ni chredwn fod y mesurau hyn yn rhai priodol ar gyfer yr amcan penodol hwn. Mae pobl sy'n hawlio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn dod o sawl gwahanol grŵp oedran ac nid yw'r mesurau yn darparu unrhyw wybodaeth am gymorth y Cyngor i bobl hŷn.

61 Roedd Mesur 4, sef cyfradd, fesul 1,000 o gleientiaid sy'n oedolion a aseswyd ac y darparwyd technoleg gynorthwyol electronig (gan gynnwys Teleofal) iddynt yn darparu peth gwybodaeth ynglŷn â faint y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi annibyniaeth cleientiaid sy'n oedolion. Mae hwn yn faes lle nad yw'r Cyngor wedi gwneud cymaint â'r rhan fwyaf o'r cynghorau eraill. Fodd bynnag, mae'r dangosydd yn cynnwys pob cleient sy'n oedolyn, ac nid dim ond y rhai sy'n hŷn. Mae Mesur 1 hefyd yn cynnig peth tystiolaeth ddefnyddiol o faint y mae'r Cyngor wedi'i wneud i gynyddu ei ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol, sef maes pwysig yn y gwaith o foderneiddio gwasanaethau i bobl hŷn.

62 Ond nid yw'r un mesur a ddewiswyd gan y Cyngor yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos a yw cyfran uwch o bobl hŷn na chynt yn byw'n annibynnol. Yn bwysig ddigon, nid yw'r mesurau ychwaith yn dangos ansawdd y cymorth a ddarperir gan y Cyngor i helpu pobl hŷn.

6 Mae tai gofal ychwanegol yn cynnig annibyniaeth i bobl hŷn yn eu cartref eu hunain gyda gwasanaethau eraill wrth law os bydd eu hangen neu eu heisiau arnynt. Gall ddarparu ar gyfer pobl a fyddai fel arall yn defnyddio gwasanaethau aciwt yn fynych, yn bennaf am fod eu hen gartrefi yn anaddas iddynt ofalu amdanynt hwy eu hunain.

7 Taliadau i bobl yr aseswyd bod angen cymorth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol, ac a hoffai drefnu a thalu am eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain yn lle eu derbyn yn uniongyrchol gan y cyngor lleol.

8 Mae Teleofal yn cynnwys cyfarpar a gwasanaethau sy'n cefnogi diogelwch ac annibyniaeth yng nghartref unigolyn.

**Arddangosyn 2**

| Mesur | Perfformiad 2008-09 | Perfformiad 2009-10 |
|---|---|---|
| 1 Nifer y tenantiaid o fewn y cynllun tai gofal ychwanegol | (cartrefi gofal ychwanegol ddim ar gael) | 64 |
| 2 Nifer y bobl sy'n hawlio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor | 11,770 | 12,238 |
| 3 Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau newydd am y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor a newidiadau | 8.5 diwrnod | 11.4 diwrnod |
| 4 Cyfradd (fesul 1,000) o gleientiaid sy'n oedolion a aseswyd ac y darparwyd technoleg gynorthwyol electronig iddynt | 47.35 | 60.47 |

63 Rydym yn cydnabod nad yw'r data sydd ar gael yn genedlaethol yn rhoi darlun clir. Er enghraifft, yng Nghonwy, cafodd 54.9 fesul 1,000 o bobl 65 oed neu drosodd (boed yn gleientiaid gwasanaethau cymdeithasol ai peidio) eu cefnogi yn y gymuned yn 2009-10. Mae'r ffigur hwn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae wedi gostwng ers 2008-09. Fodd bynnag, roedd nifer y bobl hŷn a gafodd eu cefnogi mewn cartrefi gofal, sef 21.4 fesul 1,000 o bobl, hefyd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion hyn yn dangos bod tua 76 o bobl hŷn fesul 1,000 yng Nghonwy yn cael rhyw fath o gymorth; mae hyn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 108.

64 Nid yw hwn yn arwydd nad yw'r Cyngor yn helpu digon o bobl hŷn. Nid yw'r dangosyddion yn ystyried, er enghraifft, lefel yr angen yn y gymuned. Mae'n bosibl, er enghraifft, bod pobl hŷn yng Nghonwy yn iachach na'r cyffredin ac felly nad oes angen cymaint o gymorth arnynt â rhannau eraill o Gymru.

65 Mae mesurau eraill ar gael a all helpu i greu darlun cliriach. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ar gyfran cleientiaid gwasanaethau cymdeithasol 65 oed neu drosodd y mae'n eu cefnogi yn y gymuned. Ar gyfer 2009-10, cafodd 81 y cant o gleientiaid hŷn y Cyngor eu cefnogi yn y gymuned, sef cyfran ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ers 2006-07, mae'r gyfran hon wedi cynyddu'n raddol o 77 y cant, yn unol â'r duedd ledled Cymru.

66 Ar y cyfan, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddatrys y broblem o sut y gellir goresgyn yr anawsterau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r mesurau hyn mewn ffordd sy'n ei alluogi i roi darlun clir o'i gynnydd mewn perthynas â'r Amcan Gwella hwn.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu pobl i ddatblygu?

67 Fel rhan o'u gwaith o ddatblygu'r economi leol ac i wella lles eu dinasyddion, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn gweithio gyda phartneriaid i geisio datblygu sgiliau'r gweithlu lleol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion busnesau lleol.

68 Yn unol â chyfartaledd Cymru, mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau wedi gostwng yn raddol yn y Sir ers 2001 a, heblaw am 2008, bu llai o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn y Sir na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau Lefel 4[9] neu uwch wedi cynyddu'n raddol ers 2001. Erbyn 2009, roedd dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r uchaf ymhlith ardaloedd cyngor Gogledd Cymru.

69 Mae cynghorau yn gyfrifol am sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae cynghorau a'u hysgolion yn rhannu'r cyfrifoldeb ariannol am sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod eu cyfleusterau'n gyfoes. Mae cynghorau hefyd yn gyfrifol am fonitro perfformiad ysgolion, gan ymyrryd lle y bo angen er mwyn sicrhau bod y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn ddigon da. Maent hefyd yn asesu disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ac yn darparu ar eu cyfer ac yn cyflawni nifer o swyddogaethau eraill sy'n cynorthwyo ysgolion.

70 Dros nifer o flynyddoedd, ac yn rhannol mewn partneriaeth â datblygwr yn y sector preifat, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran moderneiddio ei saith ysgol uwchradd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno'n ddiweddar i gyfrannu £16 miliwn tuag at ailddatblygu unig ysgol arbennig Conwy sef prosiect a fydd yn costio £22 miliwn. Mae dwy ysgol gynradd wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac erys y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor, sy'n mynd rhagddi yn ôl y bwriad. Ym mis Ionawr 2009, roedd ymhell dros 20 y cant o leoedd ysgolion cynradd yn wag.

71 Cost[10] addysg gynradd, sef £4,957 y disgybl ar gyfer 2010-11, yw'r bedwaredd uchaf ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru. Y gost gyfatebol i ysgolion uwchradd yw £4,703 y disgybl, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ar ddiwedd 2009-10, roedd gan ysgolion yng Nghonwy gronfeydd wrth gefn gwerth tua £4.5 miliwn, sef tua £292 wrth gefn fesul disgybl, y ffigur uchaf ond un ymhlith 22 awdurdod lleol Cymru.

72 Mae plant saith oed yn ysgolion cynradd Conwy yn cyrraedd safonau sy'n agos i gyfartaledd Cymru fel arfer. Yn 2010, cyflawnodd 81.2 y cant o ddisgyblion y Dangosydd Pynciau Craidd[11] o gymharu ag 81.6 y cant ledled Cymru gyfan. Fel arfer mae plant 11 oed wedi cyflawni safonau ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond, yn 2010, cyflawnodd 77.6 y cant o ddisgyblion y Dangosydd Pynciau Craidd, ychydig yn is na chymharydd Cymru gyfan, sef 78.2 y cant.

73 Mewn ysgolion uwchradd, mae plant 14 oed hefyd yn cyflawni safonau sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru fel arfer. Yn 2010, cyflawnodd 64.4 y cant o ddisgyblion y Dangosydd Pynciau Craidd o gymharu â 63.7 y cant ledled Cymru. Ceir darlun tebyg o ran plant 16 oed; cyflawnodd 68.3 y cant o ddisgyblion drothwy Lefel 2[12] yn 2010 o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 63.7 y cant.

9 Mae cymwysterau Lefel 4 yn cyfateb i Dystysgrifau Addysg Uwch ac yn briodol i bobl sy'n gweithiol mewn swyddi technegol neu broffesiynol.

10 Mae'r costau'n seiliedig ar Ffurflenni Cyfrifon Refeniw ac yn cynnwys grantiau penodol. Maent yn cynnwys gwariant o gyllidebau canolog sydd wedi'i ddosrannu i ysgolion yn ogystal â chyllidebau dirprwyedig.

11 Mae disgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd pan fyddant yn cyflawni lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgwylir am eu hoedran mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg.

12 Y Trothwy Lefel 2 yw nifer o gymwysterau ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cyfateb i bum TGAU graddau A*-C.

Y safonau yng Nghonwy oedd y trydydd uchaf ymhlith 22 awdurdod lleol Cymru. Gan ystyried lefel y prydau ysgol am ddim[13] yn ysgolion uwchradd Conwy, mae disgyblion yn gyson wedi cyflawni safonau sydd o leiaf cystal â'r meincnodau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyfrifo bob blwyddyn ar bron bob dangosydd.

74 Mae gan bob ysgol uwchradd yng Nghonwy chweched dosbarth sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd a chyda Choleg Llandrillo, y coleg Addysg Bellach lleol, i gynnig amrywiaeth cynyddol o gymwysterau Safon Uwch a galwedigaethol. Mae'r 'sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog' (sy'n ystyried yr holl gymwysterau achrededig a enillir gan fyfyrwyr) yn ysgolion Conwy yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru a chynyddodd yn sylweddol yn 2010.

75 Mae cyfraddau presenoldeb yn ysgolion cynradd Conwy yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Bu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn fwy amrywiol ond maent wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru ar gyfer y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae'r Cyngor wedi rhoi systemau cymorth effeithiol ar waith i leihau nifer y disgyblon sy'n cael eu gwahardd o ysgolion, boed hynny'n barhaol neu am gyfnod penodol. Mae cyfran uwch o ddisgyblion 16 oed yn dewis parhau mewn addysg amser llawn yng Nghonwy na chyfartaledd Cymru, a dim ond 4.8 y cant a adawodd yr ysgol ac nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn 2009 o gymharu â 5.7 y cant ledled Cymru.

76 Mae Estyn, sef arolygiaeth addysg ac hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal. Bydd Estyn yn arolygu gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc ar ddechrau 2011. Byddwn yn crynhoi canfyddiadau'r arolygiad yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2011.

## A yw'r Cyngor yn helpu pobl i wella eu sgiliau fel y bydd eu bywydau'n gwella?

77 O dan y pennawd 'helpu pobl i ddatblygu', rydym wedi canolbwyntio ar Amcan Gwella'r Cyngor i weithio gyda phartneriaid i nodi bylchau mewn sgiliau yn yr economi leol ac yna helpu pobl i wella eu sgiliau. Mae gan yr amcan hwn y potensial i helpu i ddatblygu aelodau'r gymuned mewn ffordd sy'n cefnogi lles unigolion a chymunedau. Mae'r Cyngor wedi dweud:

- ‘Byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella’u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a’u bod yn gwella’u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.’

13 Mae lefel y prydau ysgol am ddim yn brocsi am lefel amddifadedd sydd, yn ei dro, yn gysylltiedig iawn â lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

78 Mae'r Amcan Gwella hwn yn mynd i'r afael â sawl un o'r meini prawf a nodwyd mewn canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r ail ran, yn benodol, yn anelu at gynyddu 'tegwch'. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriadau yn yr amcan at 'well lles meddyliol a chorfforol a mwy o incwm gwario' yn gwneud yr amcan yn fwy cymhleth nag sydd ei angen ac, o ganlyniad, yn llai cadarn o ran sut y gellir diffinio llwyddiant.

79 Yn ei Adroddiad Blynyddol ac mewn mannau eraill mae'r Cyngor wedi nodi amrywiaeth da o weithgarwch sy'n cefnogi'r amcan hwn. Er enghraifft:

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cais llwyddiannus i Gronfa Swyddi'r Dyfodol[14]' ar gyfer pobl 19-24 oed ac mae wrthi'n sefydlu Bwrdd Rhaglen Sgiliau i gydlynu'r gwaith cynllunio gyda busnesau lleol. Rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Awst 2010, llwyddodd cynllun Cronfa Swyddi'r Dyfodol Strategaeth Dinas Rhyl i sicrhau 223 o gyfleoedd i ddechrau mewn swydd ledled sir Ddinbych a Chonwy, gyda 38 y cant o'r rhai yn y cynllun yn parhau mewn cyflogaeth.
- Mae'r Cyngor yn ymwneud â Phrosiect Genesis Llywodraeth y Cynulliad, sydd â'r nod o weithio gyda theuluoedd drwy helpu rhieni i ddod o hyd i waith. Mae prosiect Conwy yn rhoi cymorth unigol a chymorth mewn grŵp i unrhyw un 16 oed neu drosodd, yn enwedig rhieni unigol, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau i addysg a chyflogaeth. Drwy gefnogi dros 170 o famau sengl, mae'r Cyngor eisoes wedi rhagori ar ei darged o 70.
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn mynd i'r afael â datblygu'r gweithlu ledled y Sir. Fel rhan o'r prosiect hwnnw, cynhaliwyd dau ddigwyddiad swyddi yn ystod 2009, yr oedd un ohonynt yn cynnwys y cyngor cyfagos, Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor wedi cwblhau archwiliad mewnol o sgiliau ac wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth â Choleg Llandrillo y mae'n ei ddefnyddio i ymdrin â phrinder sgiliau yn ei weithlu ei hun. Gall staff ddilyn nifer o gyrsiau ar-lein, sy'n cynnwys gwahanol fodiwlau.

80 Er nas nodwyd yn benodol mewn perthynas â'r Amcan Gwella hwn, rhagorodd y Cyngor ar ei darged yn 2009-10 o ran nifer y busnesau a oedd yn cael hyfforddiant TGCh drwy ddigwyddiadau hyfforddi neu hyfforddiant unigol.

81 Nid oes unrhyw Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol na Dangosyddion Gwasanaeth Craidd ar gael ar gyfer yr Amcan Gwella hwn felly mae'n anodd cymharu perfformiad y Cyngor â pherfformiad awdurdodau eraill yng Nghymru. Eto i gyd mae'r Cyngor wedi nodi ei ddangosyddion lleol ei hun, gyda'r nod o asesu ei berfformiad. Nodwn ei berfformiad yn erbyn y mesurau hyn dros y cyfnod o 12 mis hyd at fis Mawrth 2010 yn Arddangosyn 3.

82 Er nad oes modd eu cymharu â chynghorau eraill, mae'r mesurau a ddewiswyd gan y Cyngor yn rhoi amcan defnyddiol o lwyddiant cyfraniad uniongyrchol y Cyngor i gyflawni rhannau o'r Amcan Gwella hwn.

14 Rhaglen gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor ac eraill sy'n wynebu anfantais sylweddol yn y farchnad lafur.

**Arddangosyn 3**

| Mesur | Perfformiad 2008-09 | Perfformiad 2009-10 |
|---|---|---|
| 1 Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 64 | 129 |
| 2 Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 34 | 70 |
| 3 Nifer y staff sy'n manteisio ar y cyfle i barhau i weithio i'r Cyngor ar ôl oedran ymddeol | 164 | 124 |
| 4 Nifer y bobl a gafodd gymorth gan y Cyngor i symud oddi wrth fudd-daliadau diweithdra a dychwelyd i weithio (drwy brosiectau megis Genesis) | 74 | 132 |

83 Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dychwelyd i weithio, er enghraifft, yn fesur cadarnhaol o lwyddiant. Fodd bynnag, byddai'n fwy defnyddiol pe bai modd cymharu'r duedd ledled Gogledd Cymru neu mewn awdurdodau tebyg eraill. Mae nifer y lleoliadau gwaith a phrentisiaethau hefyd yn fesurau o gyfleoedd i gynyddu sgiliau. Ond, hyd nes bod y gwaith o nodi prinder sgiliau yn yr ardal leol yn gyflawn, ni fydd y Cyngor yn gallu nodi i ba raddau y mae ei ymdrechion yn mynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn sgiliau.

84 Nid yw'r mesurau yn cyfeirio at y tair elfen benodol yn yr Amcan Gwella sef 'lles meddyliol a chorfforol' y rhai sy'n cael budd o waith y Cyngor, na'u 'hincwm gwario'. Oherwydd cymhlethdod yr amcan fel y'i hamlinellwyd gan y Cyngor mae'n anos iddo ddangos ei fod wedi cyflawni'r hyn roedd yn bwriadu ei gyflawni.

85 Yn y tymor hwy, bydd y sgiliau y bydd plant a phobl ifanc yn eu dysgu yn yr ysgol ac yn y coleg yn cael effaith sylweddol ar yr elfen 'dychwelyd i weithio' o amcan y Cyngor ym maes sgiliau. Yn yr un modd, bydd gan ysgolion a cholegau ran i'w chwarae i sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir ganddynt yn addas at anghenion y farchnad lafur leol.

86 Dylai fod yn gymharol hawdd mesur llwyddiant y Cyngor drwy ystyried canlyniadau arholiadau a phrofion, a thrwy fapio'r opsiynau cwricwlwm sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14-19 oed. Mae gan y Cyngor amrywiaeth da o ddata ar berfformiad disgyblion i'w ddefnyddio; rydym wedi cyfeirio at rai mathau o ddata yn gynharach yn yr adroddiad hwn a nodwn eraill isod, ynghyd â dadansoddiad byr o wybodaeth ddiweddar:

- Bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion a adawodd addysg yn 16 oed heb gymhwyster allanol cymeradwy o 1.17 y cant i 0.70 y cant, sydd ychydig yn well na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog ar gyfer disgyblion 16 oed wedi cynyddu o 350.7 yn 2008 i 420.1 yn 2010, sef y chweched uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Dros yr un cyfnod, mae'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog ledled Cymru gyfan wedi cynyddu o 356 i 394.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

87 Mae cyfradd droseddu'r Sir tua 15 pwynt canrannol yn is na chyfartaledd Cymru. Mae wedi gostwng yn gyson a dim ond tri chwarter y ffigur a gofnodwyd saith mlynedd yn ôl ydyw bellach.

88 Canfu Arolygiad ar y Cyd o Gyfiawnder Troseddol yn ddiweddar fod ansawdd y gwasanaeth troseddwyr ifanc ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mewn dau o bob tri achos, roedd y gwasanaeth yn effeithiol o ran lleihau'r risg y byddai plentyn neu berson ifanc yn cael niwed neu'r risg o niwed i aelodau eraill y cyhoedd. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n dda i leihau cyfraddau aildroseddu yn ymron tri chwarter yr achosion. Hefyd canfu'r arolygiad fod y gwasanaeth yn dilyn ei weithdrefnau'n briodol yn y rhan fwyaf o achosion. Yn olaf, nododd yr arolygiad bod angen gwella ansawdd, cywirdeb a gwaith arolygu gan reolwyr mewn perthynas ag asesiadau o bobl sy'n agored i niwed.

89 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw 122 milltir o ffyrdd dosbarth A. Er bod cyfran y ffyrdd hyn y barnwyd eu bod mewn cyflwr gwael wedi cynyddu i 2.9 y cant yn ystod 2009-10, mae cyfran y ffyrdd mewn cyflwr gwael yn parhau i fod dipyn yn is na chyfartaledd Cymru. Eto i gyd, roedd y gyfradd marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn y Sir yn uwch na chyfartaledd Cymru.

90 Yn 2009, 69.5 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth yn y sir, sef y bumed gyfradd uchaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Rhwng 2001 a 2009 bu'r gyfradd gyflogaeth yn uwch na chyfradd gyflogaeth Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae enillion cyfartalog yn isel; Yn 2009, £433 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol Conwy sef yr isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Ceir ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yng ngogledd y Sir. Mae cyfran y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, yn 2008, y gyfran hon oedd y chweched uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Ym mis Gorffennaf 2010, dywedodd 3.5 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio eu bod yn ddi-waith drwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Tri phwynt chwech y cant oedd cyfartaledd Cymru.

91 Mae arolygiadau annibynnol Cadwch Gymru'n Daclus wedi dangos bod strydoedd Conwy yn lanach na'r cyffredin ledled Cymru. Dengys canlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2009 fod 93 y cant yn fodlon ar wasanaeth glanhau strydoedd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi sefydlu tîm ymateb brys i ymdrin â thipio anghyfreithlon a graffiti, wedi lansio ymgyrch baeddu gan gŵn ac wedi cynyddu nifer yr hysbysiadau statudol a roddwyd mewn perthynas ag eiddo mewn cyflwr gwael neu eiddo gwag. Mae canran y r achosion o graffiti sydd wedi cael ei lanhau o fewn pedwar diwrnod gwaith wedi cynyddu o 78 yn 2008-09 i 91 yn 2009-10.

92 Yn ystod 2010, aseswyd gennym pa mor dda roedd cynghorau ledled Cymru yn casglu ac yn gwaredu gwastraff cartrefi a busnesau lleol. Canfuwyd bod gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio'n well a'i fod wedi rhagori o ychydig ar darged Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010 sef y dylai o leiaf 40 y cant o wastraff gael ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio gwella'r agwedd hon ar ei waith ers peth amser ac mae ei berfformiad bellach yn agos i gyfartaledd Cymru. Ar ôl treialu newidiadau yn amlder ei gasgliadau gwastraff yn llwyddiannus, mae'r Cyngor yn bwriadu ymestyn y cynllun hwn i fwy o gartrefi ym mis Ebrill 2011. Mae arwyddion addawol y bydd y newid hwn yn arwain at fwy o welliant yng nghyfran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu neu ei gompostio.

93 Mae'r Cyngor yn monitro ei berfformiad ailgylchu a chompostio'n effeithiol ac mae'n defnyddio'r wybodaeth yn dda. Mae gwybodaeth am gyfradd cyfranogi'r cyhoedd, pwysau'r deunyddiau a gasglwyd, adborth gan weithredwyr a swyddogion ailgylchu a 'chostau glanhau' oll wedi cael ei defnyddio i nodi a thargedu meysydd ar gyfer gweithredu. Mewn ystad dai drefol, er enghraifft, mae perfformiad ailgylchu wedi gwella'n sylweddol ac mae'r ystad gyfan yn llawer glanach na chynt, gyda llai o angen am weithrediadau glanhau gan y Cyngor.

94 Wrth i gyfraddau compostio ac ailgylchu gynyddu, mae'r gwastraff a anfonir gan y Cyngor i safleoedd tirlenwi yn lleihau. Mae'r lle mewn safleoedd tirlenwi yn prysur leihau, a bydd cost gwaredu gwastraff drwy dirlenwi yn cynyddu'n sylweddol oni bai bod y Cyngor yn cyflawni targedau llym.

95 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o bartneriaethau gwahanol ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon. Y bartneriaeth fwyaf yw Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Mae pum cyngor wedi cydweithio i gaffael cyfleusterau trin ar gyfer gwastraff gweddilliol a fydd yn lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi'n sylweddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymeradwyo'r achos busnes dros gaffael safle trin gwastraff ac wedi cymeradwyo cyllid o £142 miliwn. Os aiff pethau yn ôl y bwriad, dylai'r safle trin gwastraff fod yn weithredol erbyn 2016. Yn y cyfamser, yn ôl rhagamcanion mae'r Cyngor yn debygol o gadw o fewn ei lwfans o ran tirlenwi.

## A yw'r Cyngor yn helpu i hyrwyddo twristiaeth?

96 Rydym wedi canolbwyntio ar Amcan Gwella twristiaeth y Cyngor o dan y pennawd hwn. Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn economi'r Sir, yn ogystal â bod yn sbardun i sicrhau bod yr ardal yn lle dymunol i fyw ac ymweld â hi. Felly mae gan amcan twristiaeth y Cyngor y potensial i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Nodir yr amcan hwn isod:

- ‘Byddwn yn darparu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y Sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith mewn ffordd gydgysylltiedig.’

97 Bydd cyflawni cynllun twristiaeth wedi'i gydlynu yn llwyddiannus yn cyfrannu i effeithiolrwydd strategol y Cyngor. Felly mae'r Amcan Gwella hwn yn bodloni un o'r meini prawf a nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

98 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod ymhell dros chwe miliwn o dwristiaid wedi ymweld â'r Sir ar wibdeithiau yn ystod 2009-10, sef cynnydd o 16 y cant o gymharu â'r flwyddyn cynt. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd y nifer fwyaf erioed o ymwelwyr â Thramffordd y Gogarth yn Llandudno, a chafodd Venue Cymru Wobr Lleoliad Cenedlaethol BA y Flwyddyn yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif i dwristiaeth gyfrannu £579 miliwn i'r economi leol.

99 Mae'r cynnydd a nodwyd yn lleol yn sôn bod nifer o fodelau o arfer da wedi cael eu nodi a bod elfen o weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, yn enwedig o ran y strategaeth economi ac ymwelwyr, sy'n gysylltiedig ag ardal Adfywio Bae Colwyn. Cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Rheoli Cyrchfannau ym mis Hydref 2010 ac mae wedi sefydlu Fforwm Cyrchfannau Conwy fel modd i gynnal deialog gyda masnachwyr lleol perthnasol.

100 Am nad oes unrhyw ddangosyddion y cytunwyd arnynt yn genedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth, mae'n anodd cymharu â chynghorau eraill ledled Cymru. Sut bynnag, mae'r atyniadau gwahanol iawn i ymwelwyr a geir ledled Cymru yn golygu y byddai'n anodd gwneud cymhariaeth ystyrlon. Mae'n hynod anodd canfod yr effaith y mae'r Cyngor yn ei chael ar dwristiaeth ar wahân i effaith ffactorau eraill megis tueddiadau economaidd, y tywydd a ffasiynau. Eto i gyd mae'r Cyngor wedi nodi ei ddangosyddion lleol ei hun, gyda'r nod o asesu ei berfformiad. Yn Arddangosyn 4, nodwn berfformiad y Cyngor yn erbyn y mesurau hyn dros y cyfnod o 12 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth 2010, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor.

101 Mae'r mesurau y mae'r Cyngor wedi'u dewis yn amlwg yn rhoi amcan o effaith arfaethedig yr Amcan Gwella hwn. Os yw'r amcangyfrifon yn gymharol gywir, ac wedi'u hategu gan ddata manylach sy'n rhoi cyfle i'r Cyngor ddadansoddi cyfraniad yr amrywiol sectorau twristiaeth, maent yn dangos budd economaidd twristiaeth i'r ardal.

102 Yn amlwg bydd y Cyngor yn gallu dangos a yw wedi 'cyflawni cynllun twristiaeth', fel y nodwyd yn yr Amcan Gwella hwn. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau yn cynnig modd i farnu a yw'r cynllun twristiaeth yn hyrwyddo'r holl atyniadau naturiol a masnachol a geir yn y Sir yn ddigonol, neu a yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau.

**Arddangosyn 4**

| Mesur | Perfformiad 2008-09 | Perfformiad 2009-10 |
|---|---|---|
| 1 Nifer yr ymwelwyr â Chonwy bob blwyddyn sy'n aros dros nos | 2,138,000 | 2,026,500 |
| 2 Nifer yr ymwelwyr â Chonwy bob blwyddyn sy'n dod ar wibdeithiau | 5,367,000 | 6,240,000 |
| 3 Amcangyfrif o faint mae ymwelwyr â Chonwy yn ei wario'n lleol bob blwyddyn | £558.8 miliwn | £579 miliwn |

# Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei wneud?

103 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

104 Mae angen i'r Cyngor ystyried ein cynigion i'w helpu i wella.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- dylai'r Cyngor, yn ei waith cynllunio ei hun ac o fewn partneriaethau, ddatblygu'r defnydd o ganlyniadau a mesurau ansoddol a meintiol cysylltiedig wrth ddiffinio amcanion a blaenoriaethau;
- dylai'r Cyngor, lle bynnag y bo'n bosibl, ddefnyddio gwybodaeth gymharol i raddau mwy helaeth wrth werthuso ei gynnydd o ran cyflawni ei flaenoriaethau;
- dylai'r Cyngor barhau â'i raglen o nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau fel rhan o'i waith Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, a hynny ar fyrder ac fel blaenoriaeth.

**Cynigion newydd**

Wrth baratoi ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011-12, dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei gynllun a'r Amcanion Gwella cysylltiedig yn haws eu deall i randdeiliaid â diddordeb;
- mireinio geiriad ei Amcanion Gwella er mwyn sicrhau eu bod:
  - clir - yn nodi'r gwelliannau y gall dinasyddion eu disgwyl;
  - cadarn - gyda diffiniadau pendant o lwyddiant boed yn feintiol neu'n ansoddol; ac
  - amlwg - yn gallu cael eu hategu gan amcanion ond nid o reidrwydd gan dystiolaeth fesuredig na meintiol.
- sicrhau bod y dystiolaeth a ddewiswyd i ategu pob Amcan Gwella yn ymwneud yn glir â'r canlyniadau y dylai dinasyddion eu disgwyl; ac
- yn cynnwys targedau ar gyfer mesurau meintiol y mae'n eu dewis i gefnogi ei Amcanion Gwella.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[15].

15 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella,o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o’r Mesur, er mwyn nodi a yw’r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer ei waith archwilio perfformiad a wnaed i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunwyd arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Yn 2009-10, gwariant refeniw gros y Cyngor oedd £261.3 miliwn, sydd gyfystyr â £2,347 fesul preswylydd. Yn y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor £28 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Conwy oedd £1,006.96 y flwyddyn, gan gynnwys praeseptau heddlu a chynghorau cymunedol; mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 4.24 y cant i £1,049.64 miliwn ar gyfer 2010-11. Mae 71 y cant o dai Conwy yn y bandiau treth gyngor A i D.

Ceir 59 o gynghorwyr sy'n cynrychioli cymunedau'r Sir ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 20 o'r Blaid Geidwadol
- 14 Annibynnol
- 14 o Blaid Cymru
- 7 o'r Blaid Lafur
- 4 o'r Democratiaid Rhyddfrydol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Mr Ken Finch yw Prif Weithredwr Dros Dro'r Cyngor. Fe'i cynorthwyir gan ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Mr Andrew Kirkham a Mr Iwan Davies. Mae'r Cyngor yn cyflogi 4,458 o staff (gan gynnwys athrawon ac aelodau eraill o staff ysgol).

Aelodau'r Cynulliad dros Gonwy yw:

- Gareth Jones, Aberconwy, Plaid Cymru
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol

Yr Aelodau Seneddol dros Gonwy yw:

- Guto Bebb, Aberconwy, y Blaid Geidwadol
- David Jones, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn: Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL29 8AR (ffôn: 01492 574000).

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2010:

Mae sawl agwedd ar drefniadau corfforaethol bellach yn cefnogi gwelliant ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn risg bosibl i allu'r Cyngor i ateb heriau'r dyfodol.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn peri risg bosibl i gynnydd pellach.

Ar ôl cyfnod o gynnydd cyfyngedig, gwnaeth y Cyngor welliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol rhwng 2005 a 2009.

Mae trefniadau'r Cyngor bellach yn gadarn gan mwyaf.

Mae'r Cyngor wedi ymdopi'n dda â llai o uwch reolwyr ond mae'r ansicrwydd presennol yn peri rhywfaint o risg i'w ragolygon o sicrhau gwelliant pellach.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae llawer o drefniadau corfforaethol y Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei helpu i wella ac ateb heriau'r dyfodol.

Mae prosesau busnes a llywodraethu datblygedig wedi cynnal y Cyngor yn ystod cyfnod anodd o ran ei arweinyddiaeth.

Mae'r Cyngor wedi dechrau mireinio ei flaenoriaethau i lywio ei ddefnydd o staff ac adnoddau yn yr hinsawdd ariannol gynyddol heriol sydd ar droed ac mae'n gweithio mewn partneriaeth mewn modd pragmatig.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond, yn gyffredin â phob corff yn y sector cyhoeddus, mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 22 Medi 2010, rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- ymdriniodd swyddogion yn effeithlon ac yn effeithiol ag ymholiadau a gododd fel rhan o'r archwiliad a chwblhawyd yr archwiliad o'r cyfrifon o fewn y terfynau amser gofynnol;
- rhoddwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig ar gyfer PFI ar waith yn briodol ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran paratoi ar gyfer rhoi'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS") ar waith yn 2010-11, gyda Chonwy yn dangos agwedd gyfrifol wrth baratoi'n effeithlon ac mewn da bryd;
- cyfrifwyd effaith ariannol y broses gwerthuso swyddi a rhoddwyd cyfrif amdani o fewn y datganiadau ariannol hyn. Mae'n debygol y caiff ei gweithredu cyn 31 Mawrth 2011;
- nodwyd nifer fach o addasiadau archwilio gennym, y cyflwynwyd adroddiad arnynt drwy'r broses ddemocrataidd mewn adroddiadau cyhoeddedig sy'n mynd ochr yn ochr â phapurau'r pwyllgor archwilio ym mis Medi 2010; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnwn eich sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau rheolaeth gyllidebol effeithiol ar waith ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yn datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.
- Cyhoeddwyd ein hadroddiad 'ISA 260' ar ôl llofnodi'r cyfrifon ym mis Medi a oedd yn cynnwys ein sylwadau manwl yn deillio o'n harchwiliad.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10.

- Ni chaiff targedau ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a chyflawni amcanion gwella bob amser eu pennu a'u cyhoeddi cyn dechrau'r flwyddyn ganlynol.
- Cynhaliwyd archwiliad o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol fel sy'n ofynnol yn ôl statud ac mae'r Cyngor wedi cynnal lefel dda o gywirdeb o ran casglu'r data hwn ynghyd.
- Gwnaed mân gywiriadau i nifer fach o ddangosyddion yn ystod yr archwiliad ond nid ydym o'r farn bod y cywiriadau hyn yn rhai pwysig. Penderfynwyd peidio â chyflwyno barn ar un dangosydd eto gan nad oedd data cyflawn gan drydydd parti ar gael i'r Cyngor.

Nid ydym yn gallu cyhoeddi tystysgrif i gau'r archwiliad gan fod nifer o wrthwynebiadau i'r cyfrifon wedi'u codi gan aelodau o'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu pennu dyddiad pendant ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn, ond byddem yn gobeithio gallu gwneud hynny erbyn mis Mawrth 2011.

Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol. Fodd bynnag, nodwn nad oedd gwaith a wnaed i ddatrys gwrthwynebiadau i'r cyfrifon wedi'i gynnwys o fewn y dyfynbris gwreiddiol ar gyfer y ffi hon. Ar ddyddiad y llythyr hwn, rydym wedi cyflwyno ffioedd o £7,700 mewn perthynas â'r gwaith hwn.

KPMG LLP
Archwilwyr Penodedig
30 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella ar ei wefan yn www.conwy.gov.uk. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Byddwn yn hyrwyddo yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel y bydd ein plant yn ymfalchio yn eu treftadaeth – eu Cymreictod – ac yn fodlon rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal.
- Byddwn yn darparu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y Sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Gweithio gyda phartneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn is-ranbarthol, i ddatblygu ardaloedd busnes allweddol sy'n ategu ein cymdogion, gan sicrhau economi leol amrywiol gydbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal.
- Os ydych yn hyn, byddwn yn eich helpu i barhau'n annibynnol a chadw eich lle yn eich cymuned.
- Byddwn yn sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau a’r dechrau gorau’n gymdeithasol i’w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas
- Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy’n gadael gofal, yn ogystal â’r rhai sy’n ymuno â’r System Cyfiawnder Ieuenctid, a’r rhai sy’n ei gadael, i’w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella’u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a’u bod yn gwella’u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.
- Byddwn yn trafod y tebygolrwydd o lifogydd ac erydiad yr arfordir a goblygiadau hynny, gyda’n cymunedau.
- Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o’n technoleg i ddiweddaru’r ffordd rydym yn gweithio a lleihau’n defnydd o bapur.
- Byddwn yn arwain y ffordd mewn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Cymerwyd yr holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Adnodd rhannu Uned Ddata Cymru
- Gwefannau a chynlluniau Gwella yr Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol